**Eitem Agenda Rhif 2**

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1B, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Gwener 16 Gorffennaf 2010 am 10am.

## YN BRESENNOL

Mr C B Halliday (Cadeirydd), Ms M E Medley, Mr G F Roberts a Mrs P White

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (IKH); L Jones (Cyfreithiwr) a Swyddog Cefnogi Craffu (EC)

## YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd rhai o gwbl.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y rheini a oedd yn bresennol nad oedd cworwm ar gyfer y cyfarfod, gan nad oedd neb yn cynrychioli Aelodau Cyngor Sir Ddinbych. Penderfynodd y Pwyllgor barhau â'r cyfarfod a pheidio â gwneud penderfyniadau o gwbl y dylai Aelodau'r Cyngor Cymunedol a'r Cyngor Sir fod yn bresennol ar eu cyfer.

## 1 MATERION BRYS

Ni chodwyd materion brys o gwbl.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2010 (a gylchredwyd yn flaenorol).

Materion a Gododd:

**Tudalen 3, Penderfyniad (b)** – Dywedodd y Swyddog Monitro ei fod wedi cael adborth gwerthfawrogol iawn gan Banel Dyfarnu Cymru, ar ôl y llythyr o ddiolch yr oedd wedi'i anfon at y Panel.

**Tudalen 4, CYNHADLEDD SAFONAU A MOESEG –** Bu'r Aelodau'n trafod ymarferoldeb galw ar Aelodau Cyngor Tref a Chymuned i fod yn rhan o'r rhaglen hyfforddi i'r Cyngor Sir. Byddai'r Swyddog Monitro'n ymchwilio i ddichonoldeb hyn ac yn cynghori'r aelodau'n unol â hynny.

***PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 21 Mai 2010 yn gofnod gwir a chywir.*

## 3 MYNYCHU CYFARFODYDD

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu Cyngor Tref Prestatyn ddydd Mercher 7 Gorffennaf a chyfeiriodd yr Aelodau at lythyr (a gylchredwyd yn ystod y cyfarfod) a oedd yn disgrifio ei gyfraniad at y cyfarfod a'r amlinelliad a roes ar yr "Ombwdsmon Cyhoeddus yng Nghymru – Cod Ymddygiad Aelodau".

Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud bod dadl wedi codi, wrth drafod y 'Cod Ymddygiad', ynghylch defnyddio iaith anffurfiol mewn cyfarfodydd, yn arbennig defnyddio enwau cyntaf wrth annerch Aelodau. Dywedodd ei fod wedi cael gwahoddiad, ar ôl y cyfarfod, gan y Cynghorydd Sir a Thref M. J. Eckersley, i ddychwelyd i Gyngor Tref Prestatyn ar ddyddiad diweddarach a thrafod y Cod Ymddygiad yn fanylach, ac roedd wedi cytuno i drafod hyn â'r Pwyllgor Safonau.

Roedd y Swyddog Monitro'n ymwybodol o gynnal niwtraliaeth yn gyffredinol ac roedd yn gwybod bod traddodiadaeth yn amrywio mewn pwyllgorau. Datganodd Mr G. F. Roberts hefyd ei fod yn pryderu pa mor anghyffyrddus y gallai fod i'r Cadeirydd drafod y materion hyn fel cynrychiolydd ar ei ben ei hun. Ar ôl pwyso a mesur, cytunodd y Swyddog Monitro mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen oedd petai ef yn cysylltu â Phwyllgor Safonau Caerdydd am gyngor ac wedyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Cynghorydd Eckersley cyn ymrwymo i'r trefniant, gan fod cyfle i drafod materion Safonau eraill ac efallai hyrwyddo Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar yr un pryd.

Dywedodd Mrs M. E. Medley ei bod wedi mynychu cyfarfod Cyngor Tref Llanelwy yn ddiweddar a'i bod yn teimlo bod y rheolaeth ar y cyfarfod, h.y. proffesiynoliaeth a threfn, wedi gwella'n sylweddol ers y cyfarfodydd blaenorol a fynychodd yno. Holodd y Cadeirydd a oedd y ffaith bod Mrs Medley wedi cadarnhau ymlaen llaw y byddai'n mynychu, fel Aelod o'r Pwyllgor Safonau, wedi effeithio efallai ar ymddygiad Aelodau'r Cyngor Tref yn y cyfarfod hwnnw. Roedd yn teimlo y gallai hyn fod wedi annog yr Aelodau i ymddwyn "eu gorau glas". Teimlai Mrs Medley nad oedd hyn yn wir.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Safonau:*

*(a)* *yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a'r adborth gan yr Aelodau a oedd wedi mynychu Cyfarfodydd Tref a Chyngor lleol, a*

*(b)* *byddai'r Swyddog Monitro'n cysylltu â'r Cynghorydd M. J. Eckersley a Phwyllgor Safonau Caerdydd i benderfynu a fyddai'r Cadeirydd yn dychwelyd i Gyngor Tref Prestatyn i drafod y Cod Ymddygiad yn fanylach.*

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2009/10

Dosbarthodd y Swyddog Monitro gopïau o "Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2009/10" gan gyfeirio'n arbennig at y "Cod Ymddygiad". Ar ôl ychydig o gefndir am rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, roedd yr adroddiad yn disgrifio'r cynnydd yn nifer y cwynion a geir, natur y cwynion a'r hyn oedd yn achos pryder i'r Ombwdsmon.

Wrth ystyried yr adroddiad, roedd trafodaeth y Pwyllgor yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Dywedwyd bod y nifer mwyaf o gŵynion yn perthyn i faes "hyrwyddo Cydraddoldeb a Pharch".

- Nid oedd yr adroddiad yn cynnig manylion o gwbl ynghylch canlyniadau'r cwynion oherwydd, yn sgil eu nifer, roedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliadau
- Y farn gyffredinol oedd bod system yr Ombwdsmon yn effeithiol iawn gan ei bod yn ganolbwynt cyfeirio a bod atgyfeirio'n digwydd ar sail Cymru gyfan.
- Yn anochel, byddai achlysuron pan allai "torri" y Cod Ymddygiad fod yn destun dadlau – h.y. a fyddai gwerth mynd ar drywydd y mater neu a ellid ei ddatrys yn effeithiol yn lleol heb atgyfeirio at yr Ombwdsmon. Roedd pob achos yn unigryw.
- Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Cyngor Sir Ddinbych, o ran nifer a difrifoldeb y cwynion, yn gyfartal â mwyafrif yr Awdurdodau yng Nghymru.

Holodd Mrs Medley a oedd achosion yn cael eu hatgyfeirio'n aml at yr Ombwdsmon oherwydd y gred fod gan hyn fwy o "ddylanwad" nag adrodd yn lleol. Pe na fyddai'r achwynydd yn cytuno ar benderfyniad a gynigiwyd yn lleol, eglurodd y Swyddog Monitro mai'r arfer cyffredinol oedd ei gyfeirio'n uwch wedyn at yr Ombwdsmon – ond cyngor lleol fyddai'r man galw cyntaf, fel rheol.

Ceisiodd y Cadeirydd eglurhad am y term ar dudalen 9 o'r Cod Ymddygiad (yr ail baragraff ond un) "Nid yw'r Egwyddorion yn rhan o'r Cod Enghreifftiol". Eglurodd y Swyddog Monitro y dadleuwyd yn barhaus a ddylid mabwysiadu'r egwyddorion yn gyfan gwbl gan fod perygl cael cerydd pe na fyddai egwyddorion eang iawn Nolan yn cael eu dilyn i'r gair. Cadarnhaodd mai dyma pam nad oedd yr egwyddorion, fel y cyfeirir atynt yn y paragraff hwn, yn rhan gaeth o'r cod enghreifftiol.

Cytunodd yr Aelodau fod yr adroddiad cynhwysfawr yn ddefnyddiol iawn, ond roeddent yn teimlo y byddai rhywfaint o ddadl barhaus ynghylch rhai o'r gwerthoedd h.y. "didwylledd a gonestrwydd".

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau wedi cael a nodi Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2009/10*

## 5 CYFARWYDDYD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR "Y COD YMDDYGIAD I AELODAU AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU"

Roedd yr Aelodau wedi cynnwys pwyntiau trafod o'r eitem hon yn yr eitem flaenorol ac felly gofynnodd y Cadeirydd iddynt godi unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach yn benodol i'r Cod Ymddygiad (y Cod).

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r Cod yn parhau i gael ei adolygu gan yr Ombwdsmon a bod croeso bob amser i sylwadau'r Aelodau felly.

Trafododd yr Aelodau bosibilrwydd gwrthdaro buddiannau y cyfeiriwyd ato yn y Cod, h.y. y posibilrwydd bod Rhan bersonol Aelod mewn mater yn cyfaddawdu ei unplygrwydd wrth wneud penderfyniad. Ar ôl pwyso a mesur, roedd yr Aelodau o'r farn mai rhwymedigaeth yr Unigolyn oedd datgan budd personol – pe ystyrid bod angen gwneud hynny o dan y Cod.

## 5 EITEMAU BRYS

Cyfeiriodd yr Aelodau at absenoldeb Aelodau Cyngor Sir yn y cyfarfod ac roeddent yn synnu ac yn siomedig nad oedd y Cynghorwyr wedi gallu cynnig eu hymddiheuriadau.

Cadarnhawyd y cyfarfod nesaf: 10.00am ddydd Gwener 24 Medi (Ystafell Gynadledda 1, Tŷ Nant, Prestatyn)

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am

*************

**Adroddiad i:** **Y Pwyllgor Safonau**

**Adroddiad gan:** **Y Swyddog Monitro**

**Dyddiad:** **24 Medi 2010**

**Pwnc:** **Goddefebau**

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Ystyried cais gan aelodau Cyngor Tref y Rhyl i newid y lefel yr oddefeb a roddir i'r aelodau hynny sydd â diddordeb yn Undeb Gredyd Arfordir Clwyd o'r £500 a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau ar 29 Mai 2009 i £3,000.

## 2 CEFNDIR

2.1 Rhoddwyd sylw yng nghyfarfod eich Pwyllgor ar 29 Mai i nifer o geisiadau am oddefebau i aelodau Cyngor Tref y Rhyl, un ynghylch Undeb Gredyd Arfordir Clwyd.

2.2 Roedd y cais yn cael ei gefnogi gan lythyr oddi wrth Glerc y Dref yn dweud fod yr Undeb Gredyd yn gwmni cydweithredol ariannol hynod lwyddiannus nad oedd yn gwneud elw, ei fod yn cael ei redeg er budd ei aelodau a'r gymuned leol a'i fod yn un o'r cyrff a wnaeth gais i'r Cyngor Tref am gyllid o dan Gynllun Grantiau Blynyddol y Cyngor.

2.3 Mae traean o'r Cynghorwyr Tref a / neu eu teuluoedd yn aelodau o'r cwmni cydweithredol ac yn ei gefnogi drwy fuddsoddi arian ynddo neu'n derbyn cymorth ganddo. Mae hyn wedi arwain at aelodau Cyngor Tref y Rhyl, yn gwbl briodol, yn datgan diddordeb pan fydd ceisiadau am grantiau'n cael eu hystyried. Canlyniad hyn yw nad oes cworwm yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref ar yr adegau hynny a bod yn rhaid gohirio ceisiadau.

2.4 Awgrymwyd i'ch Pwyllgor y gellid caniatáu goddefeb o dan baragraffau (d) neu (e) o baragraff 2 o Bwyllgorau Safonau (Caniatáu Goddefiadau) (Cymru) 2001 sydd yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

2.5 Pan oedd eich Pwyllgor yn ystyried y mater hwn o'r blaen, nid oedd Canllawiau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Côd Ymddygiad wedi'u cyhoeddi. Cafodd y Pwyllgor ei ddylanwadu, fodd bynnag, gan ddarpariaethau newydd a gyflwynwyd yng Nghôd Ymddygiad 2008 a oedd yn caniatáu goddefeb awtomatig i aelodau sy'n cael eu penodi ar gyrff allanol pan nad yw'r cyllid a ddyfernir yn fwy na £500. Roedd y Pwyllgor o'r farn y gellid yn rhesymol defnyddio'r trothwy hwn mewn sefyllfa lle mae gan aelodau ddiddordeb personol a rhagfarnol ac felly cafodd yr oddefeb ei chaniatáu.

2.6 Erbyn hyn, mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi ei ganllawiau. Mae'n amlwg o'r rhain, pe byddai'r cais i ddiwygio'n cael ei ganiatáu, y byddai'n rhaid iddo fod yn berthnasol i'r aelodau hynny o'r Cyngor Tref sydd hefyd yn aelodau o'r Undeb Gredyd, oherwydd eu bod wedi cael eu penodi ar yr Undeb gan y Cyngor, ac i'r rhai sy'n aelodau, preifat, eu hunain. Dyna pam y mae dwy ran i'r argymhelliad isod.

2.7 Ar fy nghais i, mae Cyngor Tref y Rhyl wedi ystyried beth a fyddai'n lefel briodol. Mae'n ymddangos i mi mai'r amcan yw cydbwyso gwahanol ddiddordebau sy'n cynnwys cefnogi sefydliadau sydd o fudd i'r gymuned, cydnabod cyfranogiad priodol aelodau lleol mewn sefydliadau sy'n cefnogi'r gymuned, bod yn agored ac yn dryloyw wrth gofnodi diddordebau, a hefyd bod yna drefn ar wahân ar gyfer cyflwyno goddefebau a bod angen galluogi Cynghorau i ymdrin â'u busnes yn brydlon.

2.8 Rwy'n dangos isod yr wybodaeth a gafwyd gan Glerc Cyngor Tref y Rhyl i gefnogi'r cais.

Mae'r Cyngor Tref yn gweithredu System Grantiau bob blwyddyn gan wahodd ceisiadau gan sefydliadau ar gyfer unrhyw ddiben er lles y Rhyl - ni ddatgenir terfyn ariannol ond mae'r Cyngor yn pennu swm penodol ar gyfer yr holl geisiadau a dderbynnir ac yna'n dyfarnu yn ôl rhinwedd pob cais yn unigol. Mae'r Cynllun Grant yn cael ei or danysgrifio bob blwyddyn. Bu'n rhaid gohirio cais yr Undeb Gredyd fwy nac unwaith gan fod cymaint o'r aelodau a oedd yn bresennol yn yng nghyfarfodydd y Cyngor yn datgan diddordeb rhagfarnol gyda'r canlyniad nad oedd cworwm yn y cyfarfodydd ar ôl hynny. Roedd hyn yn golygu fod yn rhaid i'r Cyngor gadw swm penodol wrth gefn o'r Gyllideb Grantiau ar gyfer y ceisiadau. Canlyniad hyn yw bod ceisiadau'r Undeb yn cael eu trin yn wahanol i geisiadau eraill sy'n cystadlu am y gyfran sydd ar ôl o arian prin y gyllideb.

Ers 2001, rhoddwyd y Grantiau canlynol i'r Undeb Gredyd (rhoddwyd grantiau cyn 2001 ond nid yw'r wybodaeth ar gael ar hyn o bryd – rhoddodd y Cyngor hefyd y £4,000 yr oedd ei angen i sefydlu'r Undeb ar y dechrau).

| **Blwyddyn** | **Swm y cais** | **Y Swm a Dyfarnwyd** |
|---|---|---|
| 2001 | £1,000 | £1,000 |
| 2002 | Ni ymgeisiwyd | - |
| 2003 | £500 | £500 Yn dilyn dau gyfarfod heb gworwm |
| 2004 | £4,000 | £500 |
| 2005 | £5,000 | £5,000 |
| 2006 | £4,000 | £4,000 |
| 2007 | £5,000 | £5,000 |
| 2008 | £5,000 | £5,000 |
| 2009 | £7,400 | £5,000 |
| 2010 | £5,000 | £4,000 |

Ar ben y cais am Grant, mae'n rhaid i'r Cyngor yn aml benderfynu ar eitemau an-ariannol ynghylch yr Undeb Gredyd - er enghraifft, gwesteia cyfarfodydd ar

gyfer ymwelwyr â'r Undeb Gredyd, defnydd o ystafelloedd cyfarfod y Cyngor Tref, defnyddio arfbais y Cyngor Tref ar bapur yr Undeb Gredyd ayb.

2.9 Efallai y bydd yn beth cysur i Aelodau mai dim ond tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf fis Mai 2012 y byddai unrhyw oddefeb yn rhedeg. Ar ôl hynny, bydd hawl gan aelodau Cyngor Tref y Rhyl i ofyn am oddefeb newydd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau'r adeg hynny.

## 3 ARGYMHELLIAD

(â) O gofio'r ffactorau uchod, fod yr aelodau'n ystyried a ddylid newid yr oddefeb o £500 a benderfynwyd ei ganiatáu ar 29 Mai 2009 i'r aelodau hynny o Gyngor Tref y Rhyl sydd â buddsoddiad (un ai debyd neu gredyd) gydag Undeb Gredyd Arfordir Clwyd a'i gynyddu i £3000.

(b) Caniatáu goddefeb i'r aelodau hynny o Gyngor Tref y Rhyl sydd yr unig rai y mae'r Cyngor wedi'u penodi ar Undeb Gredyd Arfordir Clwyd ac sydd heb unrhyw ddiddordeb personol yn yr Undeb i benderfynu ar geisiadau grant hyd at £3000.

Swyddog Cyswllt: Ian Hearle, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Swyddog Monitro
e-bost: ian.hearle@denbighshire.gov.uk Ffôn: 01824 712562

**Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatau Gollyngiadau) (Cymru) 2001**

**Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**

**2.** Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.

**The Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001**

**Circumstances in which dispensations may be granted**

**2.** The standards committee of a relevant authority may grant dispensations under section 81(4) of the Act where -

(a) no fewer than half of the members of the relevant authority or of a committee of the authority (as the case may be) by which the business is to be considered has an interest which relates to that business;

(b) no fewer than half of the members of a leader and cabinet executive of the relevant authority by which the business is to be considered has an interest which relates to that business and either paragraph (d) or (e) also applies;

(c) in the case of a county or county borough council, the inability of the member to participate would upset the political balance of the relevant authority or of the committee of the authority by which the business is to be considered to such an extent that the outcome would be likely to be affected;

(d) the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business;

(e) the interest is common to the member and a significant proportion of the general public;

(f) the participation of the member in the business to which the interest relates is justified by the member's particular role or expertise;

(g) the business to which the interest relates is to be considered by an overview and scrutiny committee of the relevant authority and the member's interest is not a pecuniary interest;

(h) the business which is to be considered relates to the finances or property of a voluntary organisation of whose management committee or board the member is a member otherwise than as a representative of the relevant authority and the member has no other interest in that business provided that any dispensation shall not extend to participation in any vote with respect to that business; or

(i) it appears to the committee to be in the interests of the inhabitants of the area of the relevant authority that the disability should be removed provided that written notification of the grant of the dispensation is given to the National Assembly for Wales within seven days in such manner as it may specify.

**Rhaglen y Gynhadledd**

## Cynhadledd Safonau Cymru 2010
## 'Troi Theori'n Ymarfer'

## 14 Hydref 2010, Neuadd y Ddinas Caerdydd

| | |
|---|---|
| 9.15 – 10.00am | **Cofrestru a The a Choffi** |
| 10.00 - 10.15am | **Croeso**<br><br>Jon House – Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd |
| 10.15 - 11.30am | **Sesiwn Banel – 'Yr olygfa oddi yma: safbwyntiau ar y fframwaith foesegol a sut y mae'n gweithio yng Nghymru**<br><br>Bydd y siaradwyr yn cynnwys:<br>• Peter Davies – Llywydd – Panel Dyfarnu Cymru<br>• Peter Tyndall – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>• Paul Hoey - *Standards for England*<br>• Aelod Etholedig *(i'w gadarnhau)*<br>• Aelod Pwyllgor Safonau a Moeseg (*i'w gadarnhau*) |
| 11.30 - 12.00pm | **Te / Coffi** |
| 12.00 - 1.00pm | **Gweithdai – Sesiwn Un**<br><br>1.Canllawiau Côd Ymddygiad<br><br>2.Materion Cynghorau Tref a Chymuned<br><br>3.Materion Awdurdodau'r Heddlu<br><br>4.Gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau a Moeseg |
| 1.00 -2.00pm | **Cinio** |
| 2.00 – 3.00pm | **Gweithdai /- Sesiwn Dau**<br><br>5.Canllawiau Côd Ymddygiad<br><br>6.Felly, rydych chi eisiau bod yn Swyddog Monitro?<br><br>7.Cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol newydd<br><br>8..Pwyllgorau Safonau a Moeseg Rhagweithiol |
| 3.00 – 3.30pm | **Te / Coffi** |
| 3.30 – 4.00pm | **Trafodaeth a Sylwadau Clo**<br><br>Akmal Hanuk - Cadeirydd, Pwyllgor Safonau a Moeseg, Cyngor Caerdydd |
| 4.00pm | **Cau** |